GORCHYMYN CYNGOR BRO MORGANNWG GWAHARDD TROEON PEDOL (FFORDD Y MILENIWM (RHANNOL) A PAGET ROAD (RHANNOL) CYFFYRDD SIGNALAU TRAFFIG, Y BARRI) 2022

1. Ar 3 Mawrth 2022, gwnaeth Cyngor Bro Morgannwg wrth arfer ei bwerau dan Adran 1, 2 a 84 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a'r holl bwerau galluogi eraill Orchymyn a fydd yn gorfodi'r hyn a ddisgrifir yn yr Atodlen isod.
2. Daw'r Gorchymyn i rym ar 14 Mawrth 2022 neu ar y dyddiadau y mae'r arwyddion a'r marciau ffordd ar waith, pa un bynnag yw'r hwyraf a chyfeirir ato fel Gorchymyn Cyngor Bro Morgannwg (Ffordd Y Mileniwm (Rhannol) A Paget Road (Rhannol) Cyffyrdd Signalau Traffig, Y Barri) 2022. Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r cynlluniau sy'n dangos yr ardaloedd yr effeithir arnynt ar wefan y Cyngor yn https://www.valeofglamorgan.gov.uk/hysbysiadaucyfreithiol
3. Os dymunwch herio dilysrwydd y Gorchymyn neu unrhyw ddarpariaethau ynddo ar y sail nad yw'n unol â'r pwerau a ddyfarnwyd gan y Ddeddf uchod neu ar y sail na chydymffurfiwyd ag unrhyw un o ofynion y Ddeddf, neu unrhyw offeryn a wnaed dan y Ddeddf mewn perthynas â'r Gorchymyn, gallwch, o fewn chwe wythnos i 14 Mawrth 2022, wneud cais i'r Uchel Lys at y diben hwn.

ATODLEN

Mewnosod Atodlenni AX50, AX51, AY50, AY51, AZ50, BA50 a BA51

Cynnig i Wahardd Tro Pedol

Ni chaiff neb achosi na chaniatáu i gerbyd modur wneud tro pedol ar unrhyw un o'r ffyrdd wrth y cyffyrdd signalau traffig canlynol:

Ffordd y Mileniwm, Hood Road a Neptune Road, Y Barri.

O'r lôn gerbydau tua'r de-orllewin i'r lôn gerbydau tua'r gogledd-ddwyrain ar Ffordd y Mileniwm.
O'r lôn gerbydau tua'r gogledd-ddwyrain i'r lôn gerbydau tua'r de-orllewin ar Ffordd y Mileniwm.
O'r lôn gerbydau tua'r de i'r lôn gerbydau tua'r gogledd ar Hood Road.
O'r lôn gerbydau tua'r gogledd i'r lôn gerbydau tua'r de ar Neptune Road.

Ffordd y Mileniwm, Portland Drive a Ffordd Fynediad yr Archfarchnad, Y Barri.

O'r lôn gerbydau tua'r de i'r lôn gerbydau tua'r gogledd ar Ffordd y Mileniwm.
O'r lôn gerbydau tua'r gogledd i'r lôn gerbydau tua'r de ar Ffordd y Mileniwm.
O'r lôn gerbydau tua'r dwyrain i'r lôn gerbydau tua'r gorllewin ar Portland Drive.
O'r lôn gerbydau tua'r gorllewin i'r lôn gerbydau tua'r dwyrain ar Ffordd Fynediad yr Archfarchnad.

Ffordd y Mileniwm, Ffordd y Glannau a Ffordd y Dociau, Y Barri.

O'r lôn gerbydau tua'r de-ddwyrain i'r lôn gerbydau tua'r gogledd-orllewin ar Ffordd y Mileniwm.
O'r lôn gerbydau tua'r gogledd-orllewin i'r lôn gerbydau tua'r de-ddwyrain ar Ffordd y Mileniwm.
O'r lôn gerbydau tua'r gogledd-ddwyrain i'r lôn gerbydau tua'r de-orllewin ar Ffordd y Mileniwm.
O'r lôn gerbydau tua'r de-orllewin i'r lôn gerbydau tua'r gogledd-ddwyrain ar Ffordd y Dociau.

Paget Road a Plymouth Road, Y Barri

O'r lôn gerbydau tua'r de-ddwyrain i'r lôn gerbydau tua'r gogledd–orllewin ar Paget Road.
O'r lôn gerbydau tua'r de-orllewin i'r lôn gerbydau tua'r gogledd–ddwyrain ar Plymouth Road.

Paget Road, Harbour Road a Station Approach Road, Y Barri

O'r lôn gerbydau tua'r de i'r lôn gerbydau tua'r gogledd ar Paget Road.
O'r lôn gerbydau tua'r gogledd i'r lôn gerbydau tua'r de ar Paget Road.
O'r lôn gerbydau tua'r de-ddwyrain i'r lôn gerbydau tua'r gogledd–orllewin ar Harbour Road.
O'r lôn gerbydau tua'r gorllewin i'r lôn gerbydau tua'r dwyrain ar Station Approach Road.

Dyddiad: 10 Mawrth 2022.
Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai
Cyngor Bro Morgannwg, Yr Alpau, Gwenfô. CF5 6AA